Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks**

**Tiddlywinks**
**38 Stryd Masnachol, Ystalyfera**
**Abertawe**
**SA9 2HR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks Childcare Centre Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn esmwyth yn y feithrinfa hon ar y cyfan. Maent yn cael digon o ddewisiadau am beth i'w wneud a sut i dreulio eu hamser. Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd a'r staff. Maent yn mwynhau chwarae rhydd ac yn cymryd rhan yn hyderus yn y gweithgareddau a ddewisant.

Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant yn dda ar y cyfan. Maent yn cynnig amgylchedd chwarae rhydd gyda rhai gweithgareddau wedi'u cynllunio i helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae amrywiaeth dda o deganau, cyfarpar ac adnoddau ar gael i hyrwyddo chwarae'r plant yn dda, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu defnyddio'n effeithiol ym mhob ystafell. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Maent yn meithrin cydberthnasau da â'r rhieni. Mae systemau da ar waith i fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae. Gallant archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac maent yn hyderus i symud o gwmpas a chwarae fel y dymunant. Mae'r plant hŷn yn dewis pa weithgareddau yr hoffent eu gwneud gyda staff ac maent yn dod yn fedrus ac yn cyfrannu eu syniadau. Er enghraifft, wrth chwarae â'r siapiau cysylltu yn yr awyr agored, nhw sy'n penderfynu beth yr hoffent ei wneud a sut. At ei gilydd, mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn ymateb i'w hymdrechion i gyfathrebu, boed ar lafar neu fel arall, ac o ganlyniad i hynny, maent yn dod i gyfathrebu'n hyderus.

Mae bron pob un o'r plant wedi setlo yn y lleoliad. Mae'r plant sydd ychydig yn gynhyrfus yn cael cymorth ysgafn a sylw gan y staff y maent yn ffurfio cysylltiadau annwyl â nhw. Fodd bynnag, nid yw'r arferion a'r gweithgareddau a gynlluniwyd wedi'u sefydlu'n dda ym mhob ystafell. Gall hyn effeithio ar lesiant rhai plant.

Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn ymddwyn yn dda fel sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Maent yn dysgu drwy chwarae gyda'i gilydd. Mae'r plant hŷn yn sgwrsio'n rhwydd â'i gilydd ac mae'r staff yn cydweithio'n dda. Clywsom un plentyn yn ymddiheuro i blentyn arall wrth chwarae gyda'r ewyn yn yr hambwrdd twff, *'You got that in my eye'; 'I'm sorry.'* Mae'r plant iau yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd, ac mae'r staff wrth law i helpu i ddatrys unrhyw fân anghytundebau.

Mae'r plant wedi ymgolli yn eu chwarae a'u dysgu y rhan fwyaf o'r amser ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau digon o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau. Mae'r plant yn meithrin sgiliau canolbwyntio ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig wrth y gweithgareddau a ddewisant, er enghraifft, edrych ar gardiau rhifau yn yr ewyn eillio a chyfateb allweddi i gloeon. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymuno mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio ar adegau. Caiff y plant hŷn ddigon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, ond caiff mynediad i'r ardal awyr agored ei gyfyngu i blant dan ddwy oed.

Mae amrywiaeth y cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant rywsut. Ond, caiff hyn ei gyfyngu weithiau yn sgil diffyg cynllunio ar gyfer gweithgareddau uwch sydd ar gael yn yr amgylchedd i blant fynd atynt yn annibynnol. Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth. Er enghraifft, cânt eu hannog i fwydo eu hunain, rheoli eu hanghenion personol eu hunain a helpu i dacluso fel y bo'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n gymharol dda gyda'r staff er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau da ar waith i gefnogi staff i ddiogelu'r plant, gan eu hadolygu'n flynyddol. Mae systemau addas ar waith ar gyfer rheoli a chofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Mae digon o staff gyda chymhwyster cymorth cyntaf pediatrig ar gael. Mae cynlluniau gofal ar waith i'r plant sydd eu hangen.

Yn ystod yr ymweliad, gwelsom nad oedd y lleoliad yn cadw at y cymarebau staffio bob amser am fod y staff yn gadael yr ystafell i newid cewynnau a chasglu byrbrydau o'r gegin. Yn dilyn yr ymweliad, rhoddodd y bobl a oedd yn rhedeg y lleoliad wybod i ni am y newidiadau a roddwyd ar waith mewn perthynas â chymarebau. Caiff y byrbryd bellach ei gymryd i'r ystafell, gyda'r staff yn galw'r rheolwyr i ddod yno tra byddant yn newid cewynnau.

Nid yw'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol bob amser, er enghraifft ni chedwir at y polisi newid cewynnau bob amser ac nid yw'r plant bob amser yn golchi eu dwylo cyn cael bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu bwyd iach. Mae system briodol ar waith i reoli alergeddau a dewisiadau deietegol.

Mae'r staff yn gyson ymatebol ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn adnabod y plant yn dda, ac maent yn fodelau rôl da. Maent yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol fel tynnu sylw neu esbonio a rhoi cysur i blant sy'n teimlo'n drist. Mae'r staff yn annog y plant i rannu a chymryd eu tro ac yn canmol ymddygiad da. Er enghraifft, trwy ddweud pethau fel *'Super duper, good boy'* a *'good listening.'*

Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda yn y gweithgareddau chwarae sy'n cael eu dewis ganddynt. Yn ystod chwarae awyr agored, gwelsom y staff yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, gan ddangos sut i ddefnyddio'r adnoddau a siarad â'r plant am eu syniadau a beth roeddent yn ei wneud. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau o gwmpas thema. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn ymwybodol o'r cynllunio weithiau. Mae'r staff yn cydnabod ac yn parchu anghenion unigol. Mae staff wedi rhoi cofnodion datblygiadol ar waith ar gyfer pob plentyn ac mae'r plant ifanc yn derbyn taflen ddyddiol sy'n cofnodi'r hyn maent wedi'i wneud yn ystod eu diwrnod yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r safle yn ddiogel, y tu mewn a'r tu allan, gan roi digon o ryddid i'r plant. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer yr adeilad, yn ogystal ag ar gyfer y gweithgareddau. Mae cofrestrau yn cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae'r staff hefyd yn llofnodi i mewn ac allan o'r ystafelloedd yn y lleoliad ac mae'r arweinwyr yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr a ddaw i'r lleoliad. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr adeilad. Cynhelir yr arferion gwagio'r adeilad yn rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r broses. Mae gwiriadau diogelwch dyddiol ar waith ac yn cael eu cwblhau gan y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r gofod yn dair ardal sy'n rhoi lleoedd dynodedig i grwpiau oedran gwahanol. Mae digon o le ym mhob ardal i'r plant symud o gwmpas a chwarae. Fodd bynnag, ychydig iawn o deganau ac adnoddau sydd i'w gweld yn ystafell y babanod a cheir prinder ardaloedd o ddiddordeb penodol i'r plant eu harchwilio. Fodd bynnag, mae adnoddau pellach ar gael, sy'n cael eu storio gerllaw. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar ar gyfer y plant ar y cyfan. Mae gan bob ystafell arall amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau y gall plant fynd atynt yn rhwydd. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu harddangos ar silffoedd isel ac mae rhai ohonynt mewn blychau tryloyw. Mae'r teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Dywedodd y staff wrthym fod y teganau'n cael eu glanhau'n ddyddiol gyda deunydd glanhau gwrthfacterol. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym eu bod wedi nodi angen i ddatblygu'r ddarpariaeth a'u bod yn y broses o ddisodli rhai o'r teganau plastig gyda rhai pren ac adnoddau mwy naturiol, penagored fel rhannau rhydd. Mae'r dodrefn o faint a chynllun addas ar gyfer ystod oedran y plant.

Mae gan y plant fynediad i'r gofod awyr agored a ddefnyddir yn dda. Gall y plant fynd at strwythurau dringo, cegin fwd, hambyrddau tywod, teganau reidio, yn ogystal â detholiad o deganau adeiladol a pheli i enwi dim ond rhai ohonynt.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'r gofal a gynigir. Mae gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn cael ei hadlewyrchu yn y datganiad o ddiben. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau clir, sy'n adlewyrchu'r lleoliad a'r arferion presennol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei chasglu ar gyfer ffeiliau'r staff. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael cyfarfodydd a chyfleoedd rheolaidd i siarad â'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a nodi hyfforddiant. Mae'r arweinwyr yn effeithiol wrth oruchwylio staff, rheoli eu hamser a blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu bodloni mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd pan fo angen. Mae ganddynt system ar waith i oruchwylio ac arfarnu er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau, ond mae angen cofnodi'r rhain yn gywir. Mae'r staff sy'n gweithio yn y lleoliad yn rhai hirsefydlog. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, gan wybod y gallant fynd at yr arweinwyr i gael cymorth os bydd angen, *'We're like one big family.'*

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth roeddent yn ei gael. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gontract ar gyfer pob plentyn ac yn casglu'r wybodaeth ofynnol cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gofnodion caniatâd wedi'u cwblhau'n llawn ar gyfer pob plentyn. Caiff arferion y plant eu harddangos er mwyn i'r staff gyfeirio atynt os bydd angen yn ystod y dydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am amser eu plentyn yn y lleoliad mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys ar lafar a thrwy ddyddiadur i'r cartref. Maent yn y broses o addasu'r defnydd o ap ar gyfer cyfathrebu dyddiol.

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar wasanaeth sy'n ymrwymedig i wella canlyniadau i'r plant. Mae adroddiad addas ar ansawdd y gofal sy'n disgrifio'r hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, a chynllun gweithredu o'r hyn y mae'n awyddus i'w wella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal yr adolygiad hwn yn flynyddol fel y bo'n ofynnol, ac yn ystyried safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau y caiff pob goruchwyliaeth ac arfarniad ei gofnodi'n gywir.

A2. Sicrhau y caiff y gwaith cynllunio ei rannu â holl aelodau'r staff, y caiff pob plentyn gyfleoedd rheolaidd i fynd ato.

A3. Sicrhau y caiff arferion hylendid eu gwella.

A4. Sicrhau bod plant ifanc yn cael mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau.

A5. Sicrhau y caiff pob cofnod o ganiatâd ei gwblhau'n llawn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/04/2023